Rhifyn Newydd 37

Ymweliad â Ffermydd - Jane Powell

Mae ymweliad fferm yn gallu ddarparu enghreifftiau ymarferol o weithgareddau sy'n berthnasol i'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plant o bob oedran.

Ym mis Mawrth 2007 er enghraifft, trefnodd y prosiect PABA (Plant, Amaeth, Bwyd, Addysg) ym Mhowys ddigwyddiad ar fferm ger Llanidloes, ac fe wnaeth y cyfranogwyr brofi gweithgareddau gwyddoniaeth mewn 'ystafell ddosbarth awyr agored' yn ôl y Cyfnod Allweddol e.e. Bioleg, Mathemateg, Daearyddiaeth a Chemeg. Roedd y gweithgareddau hyn yn galluogi iddynt ymarfer sgiliau arsylwi, cofnodi, casglu data, mesur a dadansoddi yn ogystal â chynllunio arbrofion.

Bu disgyblion iau yn arsylwi cynefinoedd tua diwedd y gaeaf/dechrau'r gwanwyn, yn cynnwys coedwigoedd, tir gwlyb, coridor nant a phyllau. Fe wnaeth eu taith gerdded ddilyn nant, ac fe wnaethant gofnodi tymheredd y dŵr, mesur cyfradd y llif a pH. Fe wnaethant arsylwi ar ac adnabod bwystfilod bach a phlanhigion. Mewn pwll mawr, fe wnaethant ddysgu dipio, gwagio rhwydi i mewn i hambyrddau a defnyddio cardiau ID i ddynodi a rhestru eu canfyddiadau. Fe wnaethant arsylwi'r grifft broga, ac fe wnaethant ddynodi a nodi rhyw madfall y dŵr a gafodd eu dal. Yna, aethant yn ôl i'r iard fferm i goladu eu canfyddiadau ac adrodd yn ôl.

Fe wnaeth y grwpiau babanod archwilio'r coetir, gan adnabod a dysgu geiriau newydd i ddisgrifio'r hyn y gwnaethant ei weld, trafod pethau gyda'r oedolion, a defnyddio allweddau ffotograffig i ddynodi coed yn ôl eu rhisgl a'u brigau. Edrychodd y plant ar nodweddion gaeaf yn y cefn gwlad o'u hamgylch, ac fe wnaethant rwbiadau rhisgl. Fe wnaethant gasglu samplau, a'u rhoi ar ffon gerdded gan ddefnyddio bandiau lastig, er mwyn mynd â hwy yn ôl i iard y fferm i'w hadnabod. Aeth yr ysgolion ag enghreifftiau a thaflenni gwaith i wneud gwaith dilynol, ac i wneud arddangosfeydd yn yr ysgol. Hefyd, cafodd nifer o ffotograffau digidol eu cymryd fel cofnod.

Mae'r prosiect PABA yn cysylltu ffermydd ag ysgolion ym Mhowys. I wybod mwy am ei waith, gweler y wefan hon.

Mae prosiect tebyg, Dysgu ar y Fferm, yn gallu helpu gydag ymweliadau â ffermydd yng Ngheredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin. Gweler y wefan hon.

Pe hoffech drefnu ymweliad fferm yng ngweddill Cymru, cysylltwch â FACE Cymru yn www.face-cymru.org.uk.